Cyfres yr 20fed Ganrif.

RHYDDID, GWIRIONEDD CARIAD.

Yr Ymofynydd

Cyf. 9. Rhif 6.] MEHEFIN, 1909. [Pris 2c.

CYNWYSIAD.

Nodion y Mis.
Adgof Uwch Anghof.
Jeannetta Dark.
Un o Fammau Ceredigion. Sarnicol.
Efail y Gof.
Arholiad yr Ysgol Sul, 1909.
Priodas.
Marwgofion.
Manion ac Hanesion.

Y GWIRIONEDD
A'CH RHYDDHA CHWI.

Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer, Llandyssul.

YR YMOFYNYDD.

Golygwyr—

T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul, a SARNICOL, County School, Abertillery.

Pris 2g. y mis; drwy y *Post*, 2s 6d y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau.

Yr erthygiau i fod yn llaw y Golygwyr erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed. Gyrer y Farddoniaeth i Sarnicol, County School Abertillery, Mon.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Ar werth yn Swyddfa'r 'Ymofynydd.'

LLIN AR LIN:

Penodau'n Hanes a Chrefydd Israel,

— GAN Y —

Parch. J. JENKINS, B.A. (Gwili).

Mewn Llian, 2s. Trwy y Post, 2s. 2c.

JUST ISSUED. A SHORT CATALOGUE OF

RARE SECOND-HAND BOOKS

in Welsh or relating to Wales, on Sale at the YMOFYNYDD Office, Llandyssul. Applications invited.

TALIADAU.

E.J., Drefach; J.J., Castellnedd; R.S.T., Jamaica Plain, U.D.A.; Parch. T.Ll.J., Lerpwl; J.R.T., Pontshan; W.J., Cefncoed; E.J.T., Abertawe; E.D., Llanbedr; G.J., Pencarreg; D.D., Gorseinon; Parch. W.J.P., Newton; Parch. E.D.P.E., Bury; R.Ll., Aberdar; C.E., Merthyr; J.P., St., Clears; D.M.J., Cwrtnewydd; E.L., Treharris; Parch. J.W., Pantteg; J.R.T., Velindre; Parch. E.C.J., Bradford; Mrs. E., Llanon; D.J., Llywele; J.J., Bargoed; Miss J., Trecefel; J.J., Llundain; D.J., Clydach Vale; E.J., New Tredegar; J.D., Bethania; E.H., Dihewyd; W.S.J., Rhydychen; J.T., Castell-draenog; S.E, Frowen (gynt); E.P.J., Llanrwst; J.E.E., Llundain; Dr.J., Llanybyther; J.R., Pontbrenllwyd; T.T., Rock Mill; D.T., Prengwyn; J.L., Dowlais; J.T., Tibberton; H.J., Gwargraig; E.J., Cwmbwch; Parch. S.E.B., Crumlin; J.D., Llwynyrheol.

ROBIN THE NEW STARCH

Reckitt's Blue.

ZEBRA GRATE POLISH.

YR • YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1909. [CYF. IX. RHIF 6.

NODION Y MIS.

FEL y gwelir oddiwrth hyspysiad yn y rhifyn hwn, cynhelir y Cyfarfodydd Blynyddol yn Capelybryn, Cwrtnewydd. Disgwylir i fod yn bresenol gynulliad lluosog o weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi. Heblaw ein ffyddlondeb a'n dyledswydd i'r enwad yn gyffredinol i fod yn bresenol, y mae yn dyfod yn ddyledswydd arbenig arnom, pan y cofiom mai y Parch. John Davies sydd yn weinidog ar yr eglwys yno, yr hwn am bum mlynedd a deugain sydd wedi bod yn llafurio yn ddiflin gyda llawer o lwyddiant yn ei gylch. Ni chredaf iddo esgeuluso unrhyw gynulliad o'i enwad heb fod yna resymau digonol dros hyny. Dywed Mr. Davies mai y rhai hyn fydd y cyfarfodydd blynyddol diweddaf yn Nghapelybryn yn ystod ei weinidogaeth. Cydunwn yn hollol ag ef, os na chynhelir y cyfarfodydd blynyddol nesaf yno yn gynt nag arfer.

Dylai son am y cyfarfodydd blynyddol adgofio Undodiaid Cymreig o'u dyledswydd tuag at Drysorfa y Gymdeithas. Carem pe bae y casgliadau a'r tanysgrifiadau eleni, nid yn unig i fod yn gymaint, ond i ragori ar y gorphenol. Yr ydym eto. fel Undodiaid, heb feddu yr argyhoeddiad, fod llwyddiant neu aflwyddiant yr achos broffeswn garu, yn ymddibynu i ryw raddau ar bob un yn bersonol. Y mae gan bob aelod ei eglwys a'i sefydliadau i'w cynal, ond y mae y "Gymdeithas" yn sefydliad y gall yr holl aelodau a'r holl eglwysi uno a'u gilydd i wneud yr un gwaith.

Danfonwyd tanysgrifiad i'r Gymdeithas gan rywun, ond ni ddarfu iddo ddanfon ei enw. "Pontyclun, Morganwg," ydoedd nod y llythyrdy ar ei lythyr. Os y gwel y llinellau hyn, byddwn yn ddiolchgar iawn am ei enw a'i gyfeiriad.

———

Cyfeiriwyd genym yn barod at anerchiad godidog y Proffeswr Henry Jones yn y Gynhadledd Undodaidd yn Bolton. Cafodd Mr. Jones ei ddwyn i fynu gan y Methodistiaid Calfinaidd, a bu hefyd yn pregethu yn mhwlpudau'r enwad. Y mae'r geiriau canlynol lefarodd yn Bolton yn cario ganddynt eu hystyr eu hunain :—

———

"Y mae yn llawen genyf ddefnyddio'r cyfleusdra o gyfeillachu a dynion a benywod nad oes arnynt ofn dilyn arweiniad eu meddyliau mwyaf difrifol eu hunain mewn unrhyw anturiaeth dywyll ac anhawdd, ond y rhai ydynt yn sicr cyhyd ag y chwiliant am y gwirionedd, eu bod ar y ffordd iawn ac yn y gwasanaeth goreu. Oherwydd y mae hwn yn gyfarfod yr Eglwysi Rhyddion; yn rhydd, nid yn unig yn y syniad diystyr o beidio bod yn rhwym yn swyddogol wrth y Wladwriaeth, eithr mewn ystyr ddyfnach o lawer,—yn rhydd gyda rhyddid mawr sydd yn tarddu oddiar ffydd fod crefydd mor sefydlog yn ei gwirionedd ei hun fel y gall ddal ymchwiliad; fod ei thrysorau mor eang, fel y mae ymchwiliad yn dyfnhau, a phrofiad ysprydol dyn yn addfedu, ei bod yn ei gynysgaeddu a'r gwobrwyon goreu.

———

"Ofergoeledd a'i ddirgelion sydd yn sarhau a diystyru rheswm dyn, a chaiff yn y rheswm hwnw ei gelyn marwol. Ond y mae crefydd yn ddoethineb sydd uwchlaw'r deall, ac nid ydych chwi wedi ei gymysgu ag hygoeledd sydd yn is na'r deall. Ymwthia ei hun yn erbyn ffenestri yr enaid fel yr awyr bur, a gwahodda ni i'w taflu yn agored. Nid oes angen iddi guddio ei hunan tucefn i wrthgloddiau ryw hen awdurdod nac amddiffyn ei hun ag arfau dallbleidiaeth. Llawenydd genyf sefyll gyda chwi wrth droed y faner o Ryddid Crefyddol."

———

Cyfarfu tua mil o offeiriaid yn Llundain yn ddiweddar, a dywedwyd rhai geiriau caredig am yr Anghydffurfwyr; ond y peth mwyaf tarawiadol yn yr holl gyfarfod a ddywedwyd gan ddyn du—yr Esgob Johnson—Fod Canolbarth Affrica mewn perygl oddiwrth Fohametaniaeth—yr elai'r holl wlad dan ei dylanwad yn nghwrs yr ugain mlynedd nesaf, oni wnai'r Cristnogion ymysgwyd. Credwn mai ychydig siawns fydd gan Gristnogaeth yn ei ffurf boblogaidd yn erbyn Mohametaniaeth.

ADGOF UWCH ANGHOF.

THOMAS PAINE.

Ganwyd Ionawr 27, 1737.
Bu farw Mehefin 8, 1809.

Enwog am amser fel ymosodwr ar y crefyddau poblogaidd. Cyfrifid ef yn ei ddydd yn Ddeist ac yn ei wleiddyddiaeth yn Radical rhonc. Crynwr (Quaker) oedd ei dad ac yn byw yn Thetford yn Norfolk, ac wrth ei alwedigaeth yn wneuthurwr ystawesau (stays), i'r hon alwedigaeth y dygwyd yntau i fyny. Wedi hyny aeth yn gasglwr cyllidau (Exciseman). Collodd y swydd hono oherwydd agor shop tobacco, yr hyn a ystyrid yn groes i ofynion ei alwedigaeth. Profodd ei hunan yn llenor gwych, a daeth i sylw y Dr. Benjamin Franklin, yr hwn a'i anogodd i ymfudo i'r Amerig, i ysgrifenu o blaid y Trefedigaethau—yn erbyn ei famwlad wrth gwrs. Ymfudodd yn 1774, a bu am dymor yn olygydd y *Pennsylvania Gazette.* Yn hwn, a thrwy ei bamphledyn, "*Common Sense,*" yr hwn a gafodd ledaeniad helaeth iawn, fotiwyd £500 iddo gan Lywodraeth Pennsylvania. Yn 1787 ymfudodd i Ffrainc ac wedi ymweled â Paris daeth i Loegr, a bu cyhoeddiad Myfyrdodau Burke ar y Chwyldroad yn Ffrainc yn achlysur iddo ddwyn allan ei *Rights of Man, Vol. I.*, ac yn 1792 *Vol. II.* Yr un diwrnod cychwynodd yr *Attorney General* gynghaws yn ei erbyn, diangodd yntau i Ffrainc, lle y bu yn boblogaidd iawn gan un dosbarth am dymor ac y gwnaed ef yn ddinesydd. Yn ddiweddarach am iddo bleidleisio yn erbyn y ddedfryd marwolaeth basiwyd ar Louis XVI., syrthiodd dan gondemniad dosbarth arall, sef y Jacobiniaid a chafodd ei fwrw i garchar. Wedi ei ryddhau, cyhoeddodd ei "*Age of Reason*" yn dair rhan, a ffodd eto i'r Amerig, a bu farw yn New York yn 1809. Oherwydd i'r Crynwyr wrthod i'w weddillion gael eu claddu yn eu mynwent hwy, fe'u daearwyd mewn bedd ar ei fferm ei hun. Dywedir i Cobbett yn 1817 eu dwyn i Loegr. Yn ol Syr Leslie Stephen yr oedd ei anwybodaeth yn aruthrol a'i iaith yn fwystfilaidd. Cyhoeddodd Moncure D. Conway ei weithiau yn bedair cyfrol: 1895-96.

EDWARD MIALL.

Ganwyd Mai 8, 1809.
Bu farw Ebrill, 1881.

Yn 22ain oed yn weinidog Annibynol yn Ware; yn 1834 yn Leicester; yma yn 1840 bwriwyd William Baines, aelod o'i gynulleidfa i garchar am wrthod talu'r Dreth Eglwys; yn 1841 cychwynodd y *Nonconformist,* newyddiadur wythnosol; yn 1844 sefydlwyd yr

Anti State Church Association, yr un a'r *Liberation Society* oddiar 1853; yn 1852 aeth i'r Senedd fel aelod dros Rochdale; a daeth yn brif bleidiwr Cydraddoldeb Crefyddol yn Nhŷ'r Cyffredin; yn 1871, dygodd ei benderfyniad o blaid Dadgysylltiad, yr hwn a gollwyd drwy 374 yn erbyn 89; yn 1873 gwnaethpwyd tysteb o £10,000 iddo; yn fuan wedi'n ymneillduodd o'r Senedd oherwydd afiechyd, yr hwn a barhaodd hyd y diwedd.

Ychydig cyn iddo farw cyflwynwyd Anerchiad iddo gan yr Anrhydeddus John Bright, &c. Yn ateb i hwn dywedodd: "Fy nghysur parhaus yn awr yw fod y mudiad o blaid Dadgysylltiad bellach uwchlaw cyrhaedd cyfnewidiadau personol. Y mae yn nerth moesol a chanddo fywyd ac yni ynddo ei hunan, &c."

FRANCOIS CERTAIN CANROBERT.

Ganwyd Mehefin 7, 1809.
Bu farw Ionawr 28, 1895.

Marshal a Seneddwr yn Ffrainc, o deulu da oedd Canrobert. Fe'i derbyniwyd ef i'r ysgol filwrol yn St. Cyr yn 1826 ac wedi enwogi ei hun yno, ymunodd â'r fyddin fel private soldier, ac esgynodd o ris i ris nes cyrhaedd y safle o Commander-in-Chief. Clwyfwyd ef yn mrwydr Alma yn y Crimea. Pan ymddiswyddodd Marshal St. Arnand olynwyd ef gan Canrobert. Yn mis Mai 1855 gorfu iddo yntau ymddiswyddo ac olynwyd ef gan General Pelissier. Dychwelodd yntau i Ffrainc. Derbyniwyd ef gydag anrhydedd gan yr Ymerawdwr Napoleon. Yn rhyfel yr Eidal penodwyd ef i swydd uchel. Yn y rhyfel rhwng Ffrainc a Prwssia yn 1870, cauwyd ef a Marshal Bazaine i fyny, a phan roddwyd i fyny'r amddiffynfa, danfonwyd ef yn garcharor i Germany. Pan llawnodwyd telerau heddwch cafodd dderbyniad ffafriol gan M. Thiers ond ni phenodwyd ef i unrhyw swydd. Yn yr etholiad Ionawr 30, 1876, dychwelwyd ef drwy 212 o bleidleisiau allan o 385. Etholwyd ef drachefn yn 1879. Edrychai ar yr anrhydedd hwn fel gwarogaeth i'r fyddin yn mherson *doyen* ei flaenoriaid.

STEPHEN GREENLEAF BULFINCH.

Ganwyd Mehefin 18, 1809.
Bu farw Hydref 12, 1870.

Ganwyd Mr. Bulfinch yn Boston, U.D.A., a sefydlwyd ef yn weinidog Undodaidd yn Charleston, S.C., yn 1831. Wedi hyny bu'n weinidog yn Pittsburg; yn Washington, 1838; yn Nashua, New Hampshire, 1845; Dorchester, Mass., 1852; East Cambridge, 1865. Yr oedd yn awdwr rhai cyfrolau o Bregethau, a rhyw dair cyfrol o Emynau. Rhydd Julian yn ei lyfr mawr ar Emynyddiaeth hyspysiad am ryw ddeg o Emynau sydd wedi dyfod yn boblogaidd.

Mae'n debyg mai Dr. J. R. Beard a'i dygodd gyntaf i sylw yn y wlad hon; ceir 19 yn ei lyfr ef a gyhoeddwyd yn 1837. Dywedir eu bod yn nodedig "for tranquil and solid piety." Yn yr *Essex Hall Hymnal Revised* cawn dri, yn dechreu,

Lord, in this sacred hour, 3
Hath not thy heart within thee burned, 232
O suffering Friend of human kind, 313.

RICHARD MONCTON MILNES (*Lord Houghton*).

Ganwyd Mehefin, 19, 1809.
Bu farw Awst 11, 1885.

Efe oedd unig fab Robert Pemberton Milnes, yr hwn a adwaenid un amser fel "Single-speech Milnes" (1784—1858). Aeth i'r Senedd fel A.S. dros Pontefract yn 1837, ac fel y cyfryw dyrchafwyd ef i Dŷ'r Arglwyddi yn 1863. Aeth i'r Senedd fel pleidiwr Syr Robert Peel a phleidiodd ei fesur dros Ddiddymiad Treth yr Yd. Yn ddiweddarach ymunodd â phlaid Syr John Russell. Gwrthodod gymeryd swydd yn ngweinyddiaeth Arglwydd Palmerston, ond rhoddodd ei holl ddylanwad o'i du. Talodd sylw neillduol i faterion tramor. Efe oedd y cyntaf i ddwyn mesur i fewn dros sefydlu *Jewish Reformatories*, 1846. Yn 1873 yr oedd yn llywydd y Social Science Congress yn Norwich. Olynodd Thomas Carlyle (1881) fel Llywydd y London Library. Cyfrifid ef yn Maecenas, neu noddwr y beirdd. Efe ddylanwadodd ar y Prifweinidog i wneud Tennyson yn Fardd Breninol, ac efe oedd un o'r rhai cyntaf i ganfod talent Swinburne (1837—1909). Ystyrir ei farddoniaeth yn *respectable*, ac y mae rhai o'i ddarnau bychain yn boblogaidd iawn. Lord Houghton gynrychiolir yn *Tancred*, ffug-chwedl Arglwydd Beaconsfield. Yr oedd yn deithiwr mawr, yn ddyngarwr gwresog, ac yn ddi-ail fel *postprandial speaker*, neu areithiwr ar ol ciniaw; ac yn olynydd i'r Bardd Rogers yn y gelfyddyd o roi brecwast. Yr oedd yn champion cenedloedd gormesedig, rhyddid cydwybod, caethion ffoadurol, iawnderau menywod. Ei fab yw Iarll Crewe y weinyddiaeth bresenol.

JOHN STUART BLACKIE.

Ganwyd Mehefin 28, 1809.
Bu farw Mawrth 2, 1895.

Mab i arianydd yn Aberdeen. Addysgwyd yn Aberdeen ac Edinburgh. Treuliodd ddwy flynedd yn Gottingen, Berlin a Rhufain, yn ceisio meistroli'r iaith German ac Italian, &c. Yn 1834 cyhoeddodd ei gyfieithiad o *Faust* Goethe. Daeth yn enwog fel gohebydd y prif gyfnodolion. Bu'n athraw yn Mhrifysgol Aberdeen am un flynedd ar ddeg. Yn ystod yr amser hwnw gwnaeth lawer o blaid diwygiad

Prifysgolion Scotland, ac yn brif achos o'r Commissiwn gymerodd le ar ol hyny. Yn 1852 aeth yn athraw Groeg i Edinburgh, a pharhaodd yn y swydd hyd Awst 1882. Gweithiodd yn hir ac yn galed o blaid cael Celtic Chair yn Edinburgh a chododd £12,000 tuag at ei chynal. Cymer ei lenyddiaeth faesydd helaeth i fewn, ac yn ddios fe ddysgleiria bron ynddynt oll. Yn ei ryddiaeth ymdrinia â phynciau moesol ac athronyddol. Ar y gwahanol bynciau driniwyd gan Stuart Mill, Mr. Gray a Max Muller, cymer olwg wrthwynebol. Aeth ei *Self Culture* drwy 13eg o argraffiadau a chyfieithwyd ef i'r German, French, a Bohemian. Ysgrifenodd lawer yn erbyn Atheistiaeth ac Agnosticiaeth. Dyddorol iawn yw ei "*Songs of Religion and Life.*" Gellir casglu ei sefyllfa ar grefydd oddi wrth y dyfyniad a ganlyn :

> "Thou art more than all
> The shrines that hold Thee ; and our wisest creeds
> Are but the lispings of a prattling child
> To spell the Infinite."

Cyhoeddodd gyfres o Bregethau Lleyg yn 1881, ar wahanol bynciau y grefydd Gristionogol. Bu farw Mrs. Blackie Tach. 13, 1908, yn 90 oed.

JEANNETTA DARK.

Ganwyd Ionawr 6, 1412 ; Bu farw Mai 30, 1431.

Ar y 18fed o Ebrill diweddaf bu'r Eglwys Babaidd a changen o Eglwys Loegr yn dathlu coffa Jeanetta Dark neu Joan of Arc, fel y gelwir hi yn gyffredin yn y wlad hon. Yn Rhufain cyfarfu llu mawr iawn i weled ac i gymeryd rhan yn y ddefod o wynfydyddu (*beatify*) Joan, y cam cyntaf tuag at ei gwneuthur yn santes. Dywedir i'r ddefod gostio £25,000 ac y cyst yr un nesaf eto tua'r un cymaint. Yr oedd yno bererinion o Ffrainc, gyda'u Cardinaliaid, eu Harchesgobion, a rhyw 62 o Esgobion, yn gwneuthur tyrfa fawr o ddeng mil ar hugain o eneidiau. Yr oedd Eglwys St. Petr yn orlawn o bobl yn cynrychioli bron pob cenedl. Darllenwyd briff y Pab yn canmol rhinweddau Joan, y La Puella* fel y gelwir hi weithiau. Cyhoeddwyd ei bod eisoes o nifer y gwynfydedigion. Yn y prydnawn daeth y Pab i'r eglwys eto i addoli'r creiriau (*relics*). Yr oedd wedi ei ddilladu mewn gwisg o goch a gwyn. Cludid ef gan ddeuddeg dyn ac amgylchid ef gan ei swyddogion lleyg ac eglwysig. Pan oedd yr hen wr ar ei ddeulin syrthiodd rhyw arswyd dwfn a chysegredig dros yr holl gynulleidfa. Wedi iddo gyhoeddi'r fendith dych-

* Hyny yw, y Forwyn, The Maid of Orleans.

welodd adref. Cynaliwyd cyfarfod cyffelyb yn Paris, pan y cyhoeddwyd maniffesto gan y Duc o Orleans yr hwn oedd am ddwyn ar gof mai efe oedd etifedd coron Ffrainc!
Yn debyg fel yr oedd yr Iuddewon gynt yn

ADEILADU BEDDAU Y PROFFWYDI

y rhai y bu eu tadau yn euog o ollwng eu gwaed, "o waed Abel gyfiawn hyd waed Zecharias fab Barachias, &c.," felly 'r oedd yr Eglwys, a helpiodd i losgi Joan bum canrif yn ol, yn awr yn ceisio gwneuthur iawn am ei merthyrdod gwaradwyddus!

Ni ddywedwn mai ar yr offeiriaid oedd y bai i gyd, er iddynt ei phoeni'n warthus â rhyw sham o dreial am rai misoedd o amser; nid oeddynt yn waeth na'r Burgundiaid y rhai a'i daliasant ac a'i gwerthasant am swm o arian; nac yn waeth na'r Saeson a'i prynasant, ac wedi ei thrin yn y modd mwyaf barbaraidd a'i llosgasant hi'n lludw ar y Scwar yn Rouen; ac fel na byddai i un maen coffa gael ei godi iddi, ac na byddai i'r bobl gyffredin gyfrif ei gweddillion yn sanctaidd, taflasant y lludw hwnw i'r afon Seine. Dengys defod y Sul rhyfedd crybwylledig y modd y daw anrhydedd yn gynar neu yn ddiweddar i bob gwir fawredd. Er nad oedd Joan ond megys plentyn mewn ystyr, dangosodd ei bod yn meddu ffydd, os nid i symudo mynyddoedd, yn sicr i newid cwrs hanes. Yr oedd ganddi yspryd a'i gwnaeth yn un o ryfeddodau hanes. Ardderchoced yw drama Schiller am dani, ac er cystal ei ddarluniad o'i charitor, ni chredwn y gall neb ddarllen cofion syml ei bywyd byr, heb deimlo eu bod yn ffurfio arwrgerdd llawer mwy ardderchog. Y mae mawredd Joan yn gynwysedig, cofier, yn hyn—iddi wneuthur yr oll a wnaeth, yn unig trwy yni pur a grym ei henaid mawr ei hun.

Er mwyn deall sefyllfa pethau yn Ffrainc ar y pryd, sylwer ar y manylion a ganlyn:—Yn 1422 bu farw Charles VI. o Ffrainc a choronwyd ei fab Charles VII. yn ei le. Yr un flwyddyn coronwyd Henry, brenin Lloegr, yn Paris i fod yn frenin Ffrainc a Lloegr. Yr oedd amgylchiadau Charles wedi myned yn anobeithiol iawn — y Saeson wedi meddianu rhan fawr o'i deyrnas, y Duc o Burgundy, un o dywysogion mwyaf nerthol Ewrop wedi ochru gyda hwy, yn ogystal ag Isabella, mam y brenin ei hunan.

"Mor bell y teifl y ganwyll yna ei gwawl:
Yn y byd hwn, tywyna felly weithred dda!"

Gellir rhanu hanes ein gwrthrych i dri chyfnod:—(1) hyd ei hymadawiad i Vancouleurs yn 18 oed; (2) hyd goroniad y brenin yn Rheims, Gorphenaf 17, 1429; (3) hyd ei marwolaeth.

I. Ganwyd Jeannetta Dark yn un o bump o blant, o rieni tlawd, ond duwiol, mewn pentref o'r enw Domremy, yn 1412. Wrth draed ei mam dysgodd yn fore i adrodd y Pader a'r Credo; ac fel yr oedd yn tyfu i fyny daeth i fod yn help gwerthfawr gyda gwaith cyffredin y tŷ, yn ogystal a gwnio a gwau. Ni ddysgodd erioed i ddarllen ac ysgrifenu, ond gosodai ddau lun croes ar dop y llythyron fyddid yn ysgrifenu drosti. Dywedir ei bod bob amser o ran cymeriad yn wylaidd, yn amyneddgar, yn gariadus, ac yn dduwiol. Ebai cymydog un tro, mi a fynwn pe rhoddasai Duw i mi ferch mor dda ag oedd hi. Yfodd i fewn yn fore a chyda blas hen chwedleuon yr ardal yn nghylch y Tylwyth Teg a'r Seintiau a'r Cythreuliaid. Gwnaeth un hanesyn o eiddo hen Gymro argraff ddwfn ar ei meddwl; yr oedd Myrddin wedi dywedyd y cawsai Ffrainc ei dinystrio ryw ddydd gan fenyw, ac yr adferid hi drachefn gan forwynig o gyffiniau Lorraine. Daeth y bobl i gredu mai y dinystrydd oedd Isabella, mam y brenin, a daeth Joan i gredu mai arni hi y syrthiai'r ddyledswydd o yru'r gelyn

allan ac achub ei gwlad. Meithrinai yspryd crefyddol drwy weddi a myfyrdod parhaus. Ymddangosai bob amser yn siriol a hapus, ac ni ellid dywedyd fod ofergoeliaeth na phrudd-der yn perthyn i'w natur.

Dechreuodd weled gweledigaethau yn ifanc iawn. Daethant ati ganol dydd yn ngardd ei thad, neu ar y maes pan yn bugeilio'r da neu'r defaid. Wrth gwrs gall y gweledigaethau, na welid gan neb arall, gael eu cyfrif yn ddychymygol, ond iddi hi yr oeddynt yn sylweddol wir. Yr oedd ei ffydd ynddynt yn gymorth iddi yn ei threialon ac yn nerth trwy yr hwn y gorchfygodd anhawsderau lawer. Un diwrnod yn ngardd ei thad dywedodd llais wrthi,

"Bydd yn Dda ac Ymddiried yn Nuw."

Ar hyny penderfynodd gysegru ei hunan i wasanaeth Duw. Dro arall gwelodd archangel gydag edyn, ac angylion eraill. Gwelodd y rhai hyn â'i llygaid allanol. Dywedodd Sant Michael wrthi mai hi oedd i achub Ffrainc, ac i helpu'r brenin Charles. Wylodd hithau, a dywedodd na fedrai hi farchogaeth ceffyl nac arwain byddin. Ni chredai ar y cyntaf mai Michael welodd. Mynychwyd y weledigaeth dair gwaith, a llefarai'r llais am gyflwr truenus Ffrainc.

Fel yr oedd ei hargyhoeddiad hi yn cryfhau mai hi oedd y forwynig oedd wedi ei harfaethu i achub Ffrainc, daeth anhawsderau mawrion i'r golwg. Dechreuodd ei thad amheu cyflwr ei meddwl a blinid ef o'i phlegid. Tyngai y byddai'n well ganddo weled ei boddi na'i gweled yn myned i ffwrdd gyda'r milwyr. Profedigaeth chwerw iddi oedd penderfynu ei dyledswydd—anufuddhau i'r lleisiau neu ufuddhau i'w rhieni. Defnyddiwyd llawer cynllun i geisio ei rhwystro i fyned ar genadwri a ymddangosai i bawb mor ynfyd.

II. Penderfynodd fyned i Vancouleurs. Cafodd genad i ymweled ag ewythr yno ac i aros ychydig ddyddiau gydag ef. Profodd efe y cyntaf o'i dychweledigion. Mis Chwefror 1429, pan tua 17eg oed, mae'n cychwyn ar daith orlawn o ganlyniadau pwysig. Yr oedd yn rhaid iddi groesi'r wlad, rhyw 250 o filldiroedd, ac i basio byddinoedd lawer perthynol i'r ddwy blaid ; ond nid ofnai'r un perygl ac ni chyfarfyddodd â'r un. Fel amddiffyniad gosododd am dani wisg milwr, a pharhaodd i'w gwisgo hyd nes y cafodd ei bwrw i garchar.

Yn y cwmni aeth gyda hi yr oedd un o'i brodyr. Blinent yn fawr am dani ac amheuent, ac yr oedd yno un neu ddau am ei

Thaflu Dros Ddibyn Craig

fel dewines (*witch*) ; ond yr oedd hi'n parhau yn dawel a siriol, ac yn dywedyd o hyd y cyrhaeddent y Dauphin yn ddiogel. "Nac ofnwch," meddai, "y mae Duw yn agor y ffordd i ni. Er mwyn hyn y'm ganed." Ymddangosai megys gwyrth iddynt eu bod wedi cyrhaedd pen y daith yn mhen un diwrnod ar ddeg o'r amser y cychwynasant.

A'i dyledswydd yn awr oedd perswadio'r brenin i ymddiried ei hunan, a'i achos, a'i fyddinoedd i gymeryd eu harwain

Gan Groten Ieuainc dlawd.

Y mae ei ffydd hi yn gyfryw fel y gall symud y mynydd hwn eto. Tra mae'r brenin mewn amheuaeth beth i'w wneuthur, y mae hi'n penderfynu'r pwnc drwy gryfhau'r argraff a'r dylanwad sy'n ei dilyn yn mhob man. Ei geiriau hyderus, ei gweddiau gwresog a dibaid, sancteiddrwydd ei bywyd, melusder, symlrwydd, gwyleidd-dra, a'i synwyr da, y mae hyn yn creu awyrgylch ar bob tu nad oes modd ei wrthwynebu. Ar ol tridiau cydsynia'r brenin i'w gweled.

Er mwyn profi beth allai hi, trodd yn mysg ei lysgarwyr ; ond wele hi'n myned i fyny ato yn union, ac er iddo ddywedyd nad efe oedd y brenin, nid yw hyny yn peri un math o ddyryswch yn ei meddwl.

Dywed wrtho, "Dauphin* anwyl, Jeanne La Pucelle yw fy enw i. Yr wyf yn dyfod oddiwrth Frenin y Nefoedd i ddywedyd wrthych mai chwi yw etifedd cyfreithlawn Ffrainc, mab y Brenin, a'm bod i i'ch gwaredu, ac yna i fyned â chwi i Rheims i gael eich coroni yn Frenin Ffrainc." Dywedodd wrtho hefyd amryw bethau nad oeddynt hyspys i neb ond efe ei hunan a'i Dduw.

Yr oedd Joan y pryd hwn ychydig uwchlaw 17eg oed, yn ferch olygus brydferth, yn dàl, gyda llais melus a threiddiol. Mynai rhai ymddiried ynddi ar unwaith, megys y Duc d' Alenzon a'r boneddwyr o Lorraine, tra'r oedd eraill, dynion hynach a mwy pwyllog yn gofyn am ragor o brawf. Penderfynwyd ymgynghori a'r dysgedigion a'r duwinyddion. "Gwn," meddai, "fod genyf waith caled i'w wneuthur yn Poitiers, ond fe gynorthwya fy Meistr fi.

RHAGOM, YNTE, YN ENW DUW."

Pan ofynent iddi am arwydd, ei hateb oedd, "Ni ddaethum i Poitiers i roddi arwydd. Rhoddwch y milwyr i mi, ac arweiniwch fi i Orleans, a rhoddaf i chwi arwydd—yr arwydd fydd, codi gwarchae Orleans."—"Ond," meddai un, "pe dewisai Duw godi'r gwarchae, gallai ei wneuthur heb filwyr." "Fe ymladda'r milwyr," medd hithau, "a dyry Duw y fuddugoliaeth iddynt." Wedi gwrthwynebiad o lawer cyfeiriad, hi ddywed, "Paham y gofynwch i mi yr holl bethau hyn? Nid wyf fi'n gwybod hyd y nod yr Abiec; ond yr wyf wedi dod, ar orchymyn Duw, i godi gwarchae Orleans ac i goroni'r brenin."

Cydsynia'r brenin, a dyry iddi bob peth angenrheidiol. Yr oedd yn olygfa brydferth, ei gweled mewn gwisg wen, yn eistedd ar geffyl du, â bwyell fechan yn ei llaw. Ceisiodd y lleisiau ganddi anfon am hen gleddyf wedi eu nodi a phump llun croes, yr hwn oedd guddiedig tucefn i allor St. Catherine. Cafwyd gafael yn y cleddyf yn nghanol crugyn o hen arfau. Cariai Joan ei baner lle bynag yr elai, ond anfynych y defnyddiai'r cleddyf. Nid oedd am ladd neb. Carai'r cleddyf, ond carai'r faner lawer mwy. Yr oedd y dynion oeddynt tani cyn wyllted ac anwaraidd a bwystfilod, ond gwareiddiodd hi hwy yn fuan, fel y dywedodd Michelet,—"Y mae wedi troi cythreuliaid i fod yn seintiau." Cysgai'r nos heb ei harfau. Ni wyddai beth oedd ofn. Aethai i fyny at y caerau adeiladwyd gan y Saeson ac oddiamgylch y ddinas. Meddienid y Saeson â math o fraw fel na osodent un rhwystr ar ei ffordd. Gwnaeth hyn Ebrill 29ain, ac yn mhen wyth diwrnod yr oedd wedi gyru'r Saeson allan o'r ddinas, yr hon oeddynt wedi eu gwarchae am wyth mis.

Melldithiai'r Saeson hi, a sarhaent hi, ond ffoent rhagddi o hyd. Pan fygythiai Talbot ei llosgi, atebodd hithau, "Deuwch allan un ar y tro, ac yr wyf yn rhoi cenad i chwi fy llosgi." Cafodd lawer o wrthwynebiad gan y Ffrancod eu hunain. Galarai hithau oblegid y gwaed a redai fel y dwfr. Ymgynghorai'r doethion a'u gilydd, gan dybied fod ei hysprydoliaeth hi yn well i roi cyfeiriad nag i arwain, yn well yn y maes nag yn y gynghorfa; ond nid oedd eu doethineb hwy ond megys ffolineb yn ymyl ei hysbrydoliaeth hi. Gwyddai eu bod yn cuddio rhywbeth oddiwrthi, ac meddai, "Yr ydych wedi bod yn ymgynghori, felly finau.

CYNGHOR YR ARGLWYDD A SAIF,

daw yr eiddoch chwi i'r dim. Byddwch barod yfory. Collir llawer o waed a chlwyfir finau." Wylai oblegid y sarhad a daflai'r Saeson arni. "Gwyr brenin y nefoedd," meddai, "eu bod yn dywedyd celwydd." Yn fuan dywedodd ei bod yn teimlo'n gysurus iawn; yr oedd wedi cael newydd oddiwrth y Meistr.

---

*Geilw ef yn Dauphin, am nad yw wedi ei goroni eto yn Rheims.

Dranoeth penderfynodd y cadbeniaid Ffrengig na roisent ffordd iddi, a gwrthodasant agor y pyrth ; ond gorfu iddynt ufuddhau ; a gwnaethpwyd ymosodiad angherddol ar brif gaer y Saeson, yr hon a amddiffynid gan eu prif fyddin. Gwireddwyd holl eiriau Joan y dydd hwn. Clwyfwyd hi pan yn rhuthro'n groes i'r ffos, a hi oedd y cyntaf i osod yr ysgol ar draws y mur. Ymaflwyd ynddi a chymerwyd ei harfau oddiwrthi. Daeth braw drosti, a dechreuodd wylo, ond yn y man ymddangosodd ei seintiau iddi, a daeth ei gwroldeb yn ol.

Tynodd y saeth allan a'i dwylaw ei hunan, gan ddweyd y byddai'n well ganddi farw na mwmial geiriau cyfareddol y milwyr cyffredin. Gweddiai'n ddifrifol ar Dduw, a chysurid hi. Yn y cyfamser brawychwyd y Ffrancod, a ffoent ar bob tu ; ond gorfododd Joan hwy i ddychwelyd unwaith eto. Gwelodd y faner gerllaw'r mur, a rhuthrodd yn mlaen gan waeddi, "os cyffyrdda'r faner a'r mur, cawn fynediad i fewn." Credai'r Saeson ei bod wedi ei lladd, a phan welsant hi, tybient mai drychiolaeth oedd, a ffoisant gan ofn. Ar hyny taflodd trigolion Orleans byrth y ddinas yn agored, ac ymosodwyd ar y caerau o'r tu allan. Cymerwyd hi. Ffodd y gelyn. Canwyd y clychau, ac aeth seiniau'r "Te Deum" i fyny yn yr holl eglwysi.

Dranoeth oedd dydd Sul, a gwelodd Joan y Saeson yn ffoi. Ni chaniatai i'r milwyr eu dilyn. "Er mwyn y Sabbath, peidiwch lladd heddyw. Dewis fy Meistr yw i chwi beidio ymladd heddyw. Gadewch iddynt. Dyna ddigon."

Cyflawnwyd felly y rhan gyntaf o'i phroffwydoliaeth, ac yr oedd yn awyddus i orphen y rhan arall. Meddai, "Yn awr, Dauphin anwyl, awn rhagom i Rheims. Blwyddyn sydd genyf, neu ychydig yn rhagor, a rhaid imi fod yn ddiwyd." Gwenai'r bobl fawr ar ei ffolineb plentynaidd, fel y cyfrifent ef ; ond ei ffolineb hi doethineb oedd. Yr oedd y werin o'i thu. Derbynient ei gair fel llef o'r nefoedd. "Coroner ef yn Rheims, a derbynia'r wlad ef fel ei brenin cyfreithlawn. Pe ymgrogai'r Saeson wrth y cymylau," meddai, "ni a'u cawn. A oes ceffylau genych?"—"Beth, a fydd raid ffoi?"—"Na, na, bydd eu hangen heddyw i fyned ar ol y Saeson. Fe wel y brenin heddyw y fuddugoliaeth fwya' erioed." Cyflawnwyd y broffwydoliaeth. Ffodd Falstaff. Cymerwyd Talbot ac eraill yn garcharorion, a lladdwyd tua dwy fil o Saeson. Wylai Joan uwchben y lladdedigion a rhwystrai'r Ffrancod i gam drin y carcharorion. Ni chredai'r cynghorwyr yn Joan, ond credai'r werin ; a chymerwyd y naill dref ar ol y llall. "Dos," meddai Joan wrth y brenin, "a choroner di yn Rheims."—"Gofyn os cawn ymosod," medd Charles.—"A gredir im'?" medd hithau.—"Os dywedi yr hyn fydd resymol fe wneir."—Dywed wrth y bobl am ymosod a chymerir Troyes mewn deuddydd.—"Byddwn foddlawn," medd y Canghellwr, "os gwneir mewn chwe diwrnod, ond yr wyf yn ameu."—"Chwech," ebe hithau, "cymerwn y ddinas yfory," ac fe wnaethpwyd hyny. Yr oedd hyn Gorphenaf 9fed Ar y 15fed aeth y brenin i fewn i Rheims, ac ar y 17eg coronwyd ef gyda'r seremoniau arferol. Pan welodd Joan y bobl yn canu eu croesaw i'r brenin, teimlai'n ddwys.—"O bobl dda! Pan fyddaf farw carwn gael fy nghladdu yma."—"Pa bryd fydd hyny?"—"Pan fyno Duw. Mi garwn gael dychwelyd at fy nhad a fy mam yn awr, i edrych ar ol y defaid. Byddent yn falch i fy ngweled. Ond yr wyf wedi gwneuthur yr hyn a orchymynodd yr Arglwydd."

Dywed hen groniclwr iddi ddyrchafu ei llygaid i'r nefoedd wrth adrodd y geiriau hyn, a chyffesai'r arglwyddi na welsant erioed o'r blaen arwyddion mor amlwg ei bod yn dyfod oddi wrth Dduw.

(*I'w barhau.*)

UN O FAMMAU CEREDIGION,

Sef y Ddiweddar Mrs. Margaret Griffiths, Birdlip, Llandyssul.

Y mae weithion dros flwyddyn faith er pan y rhoddwyd M.G. i huno yn mynwent wledig Bwlchygroes. Nis gwelais lannerch ei beddrod hyd y Nadolig diweddaf, ac yr oedd yr ithfaen diddarfod yno eisoes yn cofnodi dydd ei marwolaeth, ac yn cyhoeddi ei helusengarwch i'r oesau a ddel. Beiddiaf anghytuno â Shakespeare pan y dywed fod y drwg yn goroesi dyn. Na, y da sydd yn byw yn ddiddiwedd ; y mae pob anghydgord yn diflannu yn y pellder.

Ai dyna'r oll a erys o hanes M.G.? Dim ond careg fedd, ac englyn, ac adnod? Na, mae ei chof yn fyw ac yn anwyl yn nghalonau mil o drigolion glannau Ceri a glannau Cerdin ; y mae ei hwyneb siriol, ei chwerthiniad iachus, ei hysbryd difyr, ac uwchlaw dim ei chalon garedig yn fyw o hyd yn yr hen gymydogaeth o Fwlchygroes i Bantydefaid. Treuliais ddegau ar ddegau o oriau yn ei chwmni llawen, ar ei haelwyd lan, a llawn a chysurus, ac y mae ereill yn bod a dreuliasant fwy ; ond dichon nad oes un arall a'r hyfdra i geisio gosod ar bapur ei adgofion am dani. Gwyn fyd nas medrwn dynu darlun teilwng o'r gwrthrych, er mwyn i'r dô a ddel weled esiampl o un o'r hen fammau ardderchog Cymreig sydd wedi gwneud ein bro yn drigfan y gân a 'Gwlad y Menyg Gwynion.'

I unrhyw un dros ugain oed y mae boreu oes yn aros yn anelwig fel gwawr creadigaeth y ddaear ; y mae syndod gwyrth dechreuad y byd yn dyfod i ran pob dyn yn nyddiau mebyd. Edrychaf yn ol ar hwyr o hafddydd, a mi yn llencyn seithmlwydd oed yn cymeryd taith o ysgol Capel Cynon, ar ol pedwar y prydnawn, yn nghwmni plant B—b— i fyned i weld fy chwaer a wasanaethai ar y pryd yn Nghwmbwch, gydag M.G. a'i phriod call a phwyllog. Yr oedd genyf yn agos i dair milldir i deithio, a'r ffordd yn faith a dieithr. Pa ryfeddodau a welswn ar y ffordd! Yn Nhroedyrhiw yr oedd ty newydd mawr, a llechi ar ei ben, a'r morter rhwng y cerrig melynion yn sefyll allan yn llinellau heirdd a gwynion. Nis gwelswn balas tebyg i hwn o'r blaen. Yr oedd cerrig yr hen dy gartref yn arw a di-lun, a'r gwynt yn chwibanu rhyngddynt yn ystormydd y gauaf. A mynych y noethid ei hen ben o dô gwellt yn ystod gwyntoedd Tachwedd a Rhagfyr. Ond dyma fyd newydd yn agor o'm blaen, mil harddach na'r un y breuddwydiaswn am dano erioed.

Ymlaen ennyd yr awn, a'm genau agored yn llawn syndod plentynaidd, nes dyfod o honof hyd at Garegwen, a'i ffrynt a'i ffenestri yn llawn blodau o bob math dan haul. Arweiniodd plant B—b— fi hyd at yr *entry*, ac yr oedd pob llestr yn disgleirio fel gem, a'r dysglau pres yn disgleirio fel aur ar y welydd; a'r llawr mor lan fel y gallasem yn rhwydd fwyta oddiarno. Yna aethum i Siop Bensarn i wario'r ddimai oedd genyf er dathlu'r amgylchiad, a chof da genyf am lais sarug Tomos Jones, a'i dôn yn llawer mwy angharedig na'i galon. Caem bob amser ddimeiwerth dda o felusion ganddo, a'r rheiny wedi eu rhoddi mewn cwdyn bychan o bapyr copiau plant yr ysgol. Wedi gorphen y copiau, rhedai plant ysgol Capel Cynon ar frys at Tomos Jones, i gael llond dwrn o *jilly-lings* am danynt, oblegid dyna ei bapurau pacio.

Ond rhy hir y daith i'w llawn ddesgrifio ; rhaid myned heibio'r te yn B—b—, a'r rhôd ddwr a'r peirianau yr ymhoffai y plant ynddynt. O'r diwedd dyna ni yn Nghwmbwch, ty newydd o gerrig melynion a'r morter eto yn sefyll allan yn llinellau gwynion, a'r tô o deils gleision braf. Y mae M.G. yn ddynes ieuanc, hoew, a dau rosyn ar ei grudd, a'i llygaid yn loew, a'i llais fel yr arian. Yn y ty caf de ar y ford yn y gegin fach,

a'r fath de, a'r fath fara, a'r fath ymenyn! Y mae Ifan ac Alis a minnau, er yn ddieithriaid i'n gilydd hyd yn hyn, ar unwaith yn ffrindiau, ac yn chwareu, ac yn siarad am yr ysgol, ac yn cymharu Mr. Crowther, Llwyncerdinen, a Mr. Lloyd, Capel Cynon; hwy yn meddwl mai eu hysgolfeistr hwy a'u hysgol hwy oedd y goreu, a minnau yn haeru'r un fath am fy ysgolfeistr a'm hysgol innau.

Nis gall fy mod wedi aros yno fwy na rhyw awr neu awr a haner i gyd, ac eto, erbyn hyn, y mae'r hwyr hafaidd, hirfelyn hwnw yn ymddangos i mi mor hir a chyfnod, wrth edrych yn ol drwy ysbienddrych y blynyddau. Côf genyf uwchlaw dim i mi ddweyd wrth Alis fod arnaf syched; mae eisieu bwyd a syched ar blant bob amser, os byddant mewn man y credant y cânt eu diwallu yn helaeth! Rhedodd yr eneth fach lygad-ddu dlos i'r ty at ei mam, ac yn y fan daeth allan a llonaid cwpan tin bychan o laeth,—na, nid llaeth, ond hufen, y fath na phrofais ei debyg na na chynt na chwedyn yn nyddiau'm hoes.

Y mae Ifan, ac Alis, a Lisa, a Marged, a James i mi byth er hyny yn cael eu cynrychioli gan y cwpan llaeth gwynfelyn a melus hwnw! Y mae'r lliw, a'r blas, a'r arogl, yn awgrymu ar unwaith deulu Cwmbwch. Dyma i mi gyweirnod cymeriad M.G.—rhoddi cwpanaid o laeth cyfoethog i hogyn tlawd! I lawer gwraig arall byddai dyferyn o laeth glas-liw, dihufen, yn gwneud y tro; ond hoff oedd gan Marged gyfranu pleser. Yr oedd yn fwyniant iddi weled ereill yn mwynhau eu hunain. Un peth wyf yn sicr o hono, fod y cwpanaid llaeth hwnw yn 'sefyll i *gredit* M.G. ar lyfrau'r nefoedd, nid am fy haeddiant i, ond am ddaioni ei chalon elusengar hi! Pa nifer o honom sydd a chenym gymaint ar ein cyfer yn nôd-lyfrau angel y cyfrif a chwpanaid llaeth Marged Cwmbwch, bara 'menyn Sian Gwmmarch, a brechdan fêl Rachel 'R Alltddu?

Y mae blodau'r tansi yn fy nwyn yn ol oesau ar oesau (fel yr ymddengys i mi) i ddyddiau boreu'm byd ar gloddiau gardd Sarnicol; y mae arogl y brithyll yn fy arwain ar unwaith i odre gwaen yr Hafod; dug y mwsg fi ar ei edyn i gongl gysegredig ar lan y môr, lle clywaf eto hen gyfoedion yn lleisio yn swn dwndwr y dòn; bob tro y gwelaf goch a gwyrdd yr *American Currant* perarogl cyfyd deigryn melus i'm llygad am na welaf mwy ogoniant y Gwanwyn hyd lwybrau Ceinewydd; ac erys y llaeth a gefais yn Cwmbwch yn arwydd-nod o wynfyd nas del fyth yn ol tra y rhodiwyf hyd yr hen ddaear hon.

" Ble mae'r cwpan llaeth a gefais
O dy law? Mae myrdd a'i gwel
Heddyw'n hyfryd gwpan gwynfyd
Fry yn ngwlad y llaeth a'r mel.

Ymadewais, nis gwn pryd, ond cof genyf i mi gyraedd adref erbyn nos. Gefais i geiniog wrth ymadael? do, cefais ddwy. Yr oedd dyledswydd yn gofyn am roddi i mi un, a phleser yn cyfranu'r llall. Gwelais hi o dro i dro wedi hyn hyd ddiwedd ei hoes; yn ei blynyddau olaf cefais y fraint o dreulio nosweithiau lawer ar ei haelwyd lan a charedig yn Mhurlip. Lawer i nawn hyfryd o haf, a mynych i ddiwrnod gerwin o auaf y teithiais dros rôs yr Hafod, heibio Blaenpantau, ar draws rhôs Gilfachddafydd, ac i lawr drwy lôn Purlip, ar ryw neges neu gilydd at fy chwaer oedd yn gwasanaethu gyda Marged a James. Pa oriau llawen dreuliais gydag Ifan ac Alis yn chwareu hyd y clos, neu ar ddiwrnod garw, yn toddi plwm yn y 'gegin mâs,' a'i arllwys i wydrau, er mwyn ei weled yn caledu yn ddarnau gloew a phrydferth ar ddull y darnau llestri y rhoddid y metel ynddo!

Flynyddau wedi hyn bum yn medi ar fanc Purlip yn ngwyliau'r haf, ac yr oedd Marged bob amser yn lloni'r ty a llanw'r fedel a 'lluniaeth ac a llawenydd.' Nis gwn fy mod yn gymhorth mawr i gael yr ŷd i dref, ond mwyniant mawr i Marged a James oedd fy ngweled, a minnau

yn 'sgoler,' fel y gelwid fi yr amser hwnw (druan o honwyf, ofnaf na ddeuaf fyth yn 'sgoler' yn ngwir ystyr y gair!) yn ceisio gwneud fy ngoreu i fedi a rhwymo'r llafur,—gwaith mwyaf elfenol a chysegredig dynoliaeth! 'Sticka di ati, machgen i,' meddai James, yn garedig, 'fallai y bydd hi o werth mawr i ti ryw ddiwrnod fod yn medru medi a rhwymo.' Ac y mae wedi bod o werth amhrisiadwy i mi, nid am fy mod wedi medi na rhwymo llawer oddiar hyny hyd yn hyn, ond gwn beth yw dydd o gynhauaf aur ar ben y mynydd, a gwn beth yw chwys wyneb yr amaethwr sydd yn fy mhorthi a bara beunyddiol. Gwn ystyr geiriau'r prydydd am y medelwr :—

> "'E wel ef mai drwy lafur
> A min da ei gryman dur
> Ceir enllyn o'r tir croenllwm,
> A thorthau o'r llethrau llwm."

Y mae fy mywyd yn hapusach er y dyddiau heulog hyny, ac hyderaf fod fy nghalon yn ddoethach, a fy ysbryd yn eangach.

Amser tê eisteddai'r fedel yn gylch llawen oddiamgylch y llian gwyn a'r llestri trystiog disglaer ar ben y mynydd, a phob un a'i ffraetheb a'i stori. Beti a'i hadgofion byw, ac Enoc a'i hanesion anghredadwy, a Marged yn cerdded oddiamgylch yn arllwys y te ac yn rhanu'r bara gwenith a'r ymenyn liw'r sofren. Chwarddai yn iach ar ben straeon anhraethadwy Enoc y Felin, ac ymddifyrai yn fy nghlywed inau'n ceisio taro i mewn a'm tipyn dysg drwy ddangos natur y blodau i bobl y wlad, a dweyd wrthynt y modd y mae'r planhigion yn caru, priodi a byw. Cymerai ddyddordeb ymhob peth, fel plentyn, a'r meddwl bob amser yn ffres ac yn fyw. Ni ddarllenai lawer. Ni fyfyriai lawer ar gwestiynau mawr bodolaeth, ond cymerai ddyddordeb yn y byd o'i chylch, ac yr oedd yn hoff o blant dynion bob amser. Yr oedd o deimladau byw, o sylw craff, ac yn deall y 'sefyllfa' bob amser. Un o 'wir foneddigesau' natur oedd; a'r hyn sydd yn gwneud y 'gwir foneddwr' a'r 'wir foneddiges' mi dybiaf yw'r gallu i gydymdeimlo, a'r ddawn o gael pleser yn mhleser arall.

Ni eis adref erioed ar fy ngwyliau i Ddyffryn Cerdin heb roddi tro, fynychaf amryw weithiau, i Burlip. Yno yr oedd Marged fel seren, a James, a Lisa, ac Ifan ac Alis fel planedau yn symud oddiamgylch iddi hi fel canolbwynt. Hyfryd adrodd wrth y teulu beth o helynt y byd mawr oddiallan, nad oedd yn blino llawer arnynt hwy. Llawenydd ganddynt glywed adrodd darn o farddoniaeth Gymreig, a llawer i noson lawen dreuliwyd yn ceisio llunio englynion ar wahanol bynciau gwledig, neu i ateb penillion miniog y Bardd Llwyd o Lan Cerdin.

Yn ngwyliau'r Pasg arfer genyf oedd bob amser rodio hyd lan Cerdin, dros bont y Bargoed, tra'n gwrando aderyn du cynta'r tymhor, a thros bont Cwmhuar, tra'n gwylio'r wenol yn dod yn ol i'w hen nyth, hyd fron Purlip dan sylwi ar syfi a chrinllys cynta'r tymor yn agor eu llygaid anwyl yn ochr y clawdd, a thrwy'r caeau i fyny i'r hen amaethdy yn ei dŵr o goed masarn ar ben y bryn.

Gwyddwn y cawn groeso bob amser yn Mhurlip. Yr oedd Marged beunydd ar yr aelwyd, a gwên ar ei hwyneb a llonder yn ei chalon. Byddai'r plant yn ddiwyd wrth eu goruchwylion, ac nid oedd gan wr y tŷ amser pob pryd i ddala pen rheffyn i mi pan fyddai tir yn galw am ei hau a'i lyfnu, a'r anifeiliaid yn galw am ogor. Ond yr oedd ganddi hi bob amser hamdden i dreulio awr i ymgomio â mi, ac yr oedd siarad â Marged ar yr hen aelwyd fel awel hyfryd y mynydd i ysbryd lluddedig y trefwr blin.

Y Nadolig cyn yr olaf, cefais hi yn glaf yn ei gwely, ond er llesgedd a bloesgni, yr oedd yr hen loniant yn aros yn ei llygad. Gadewais hi y gwyliau hwnw gan ddymuno iddi adferiad buan, ond ofnwn yn ngwaelod cyfrin fy nghalon, nas cawn ei

gweled mwy. Ymhen ryw chwech wythnos daeth amgylchiad prudd a mi 'nol i'r hen ardal ; treuliais un diwrnod brysiog a galarus yn y gymydogaeth i dalu y gymwynas olaf i fachgen ieuanc a gymerwyd i huno ei hun olaf rhwng bryniau Ceredigion ; a chefais ychydig fynydau brysiog i weled fy hen gyfeilles. Gwyddwn wrth ei gwedd y tro hwn nas gwelwn hi byth mwy, ac felly y bu. Pan aethum i Burlip y tro nesaf yr oedd yr aelwyd yn wâg. O mor wâg ! Caf eto groesaw 'tawel' wr y tŷ ; a gwn fod yn llawenydd gan bawb o'r teulu fy ngweled, a thrwy gymorth y Nefoedd, af yno eto aml i dro, ond heb y fam, mae'r lle yn oer a gwag. Ac ni wyr neb ystyr y geiriau hyny yn fwy na'i phlant hiraethus a'i phriod galarus.

Pwy wyr nifer y rhoddion distaw gyfranodd yn ystod ei bywyd ? Pwy draetha y daioni a wnaeth yn ystod ei hoes gymharol fèr ?

Pa le bynag yr af hyd y byd ni welaf neb arall o'i hail hi. Nis enynir serch fel yn moreu ein hoes ; dichon y caf eto gwpanaid o laeth o law garedig pan fwyf yn tramwyo yn sychedig hyd wyneb y ddaear, ond erbyn hyn mae'm calon yn rhy galed i gymeryd yr un argraff ag a dderbyniodd gynt. Marged Purlip fydd i mi yn cynrychioli 'llaeth caredigrwydd dynol' (*the milk of human kindness*). Gwragedd o'i bath hi yw halen y ddaear ; mamau o'i bath hi yw'r blodau dynol a blenir gan y Nefoedd yn y byd ; hwy sydd wedi gwneud Cymru yn wlad gwerth ei charu; hwy sydd yn gwneud y ddaear yn fan teilwng o'n serch, hwy sydd yn gwneud y Nefoedd yn fan yr hiraethwn oll am dani. I mi y mae ei chof yn dyfod yn ol yn gymysg ac anadl blodau, tincian y nentydd, cân yr ehedydd, a mil o beraroglau, a gweledigaethau, a murmuron miwsig fy mebyd. Gwn mai hyfryd ei chof i ganoedd ereill, ac yr erys yn hyfryd am oesau lawer yn nyffryn gwledig Ceri, ac ar lanau unig afon Cerdin.

SARNICOL.

EFAIL Y GOF.

Mae ymwelwyr lawer wedi bod yn yr efail oddiar yr ysgrifenais o'r blaen. Yn wir gellir dweyd mai misoedd y Gwanwyn a dechreu yr Haf yw misoedd

CYNHAUAF Y GOF.

Mae braidd bob aradr ac oged yn yr ardal yn dod am dro i'r efail yn misoedd y Gwanwyn, ac mae mwy o fynd ar bedoli ceffylau yn nechreu mis Mai nag unrhyw amser yn y flwyddyn.

'Dyw mis Mai ddim yn fis Mai yn sir Aberteifi ar wahan i ffair Dalis, ac mae yna berthynas agosach rhwng y ffair hon a'r efail nag y mae llawer yn feddwl. I gael gan geffyl i godi ei draed yn uchel a gwneud ymddangosiad da rhaid cael pedolau trymion, a chan mai wrth y pwysau y gwerthir pedolau, mae dyled yr efail i ffair Dalis yn fawr, a dyled yr amaethwyr i'r efail yn fawr hefyd. Mae pedol drom y gôf wedi rhoi yspryd newydd mewn llawer i geffyl, ac mae'r yspryd newydd wedi ychwanegu at gyfoeth llawer i amaethwr.

Wel, rhwng y llyfnu a'r ffair dydw i ddim wedi treulio rhyw lawer o amser mewn unigedd yn ystod yr wythnosau diweddaf yma. Mae tyrfa wedi dod, ac wedi mynd, a chant a mwy o bethau wedi eu trin, a phobl

lawer, yn enwedig gwleidyddwyr, offeiriaid, a phregethwyr wedi eu mesur a'u pwyso.

Clorian ofnadwy yw clorian yr efail—gellir dweyd am lawer un osodir ynddi fel y dywed ysgrifen llyfr Daniel, "Ti a bwyswyd yn y cloriannau ac a'th gaed yn brin." Un peth wyf yn deimlo'n neillduol wrth wrando ymddiddanion yr efail yw fod yna duedd mewn rhai dynion i fod yn eithafol. Mae dyn naill ai yn wyn i gyd neu yn ddu i gyd yn ol barn rhai o wyr yr efail. Canmolir yn eithafol neu condemnir yn eithafol. Yn wir adgofir fi yn aml am hen bregethwr y clywais son am dano. Mewn angladdau roedd hwn yn eithafol—mewn un angladd rhoddai holl nerth ei hyawdledd i ganmol yr "ymadawedig"; o braidd na adawai iddo fynd heibio i Gabriel ei hun. Gosodai ef yn y nefoedd—ie, yn y drydedd nef, os oes yna drydedd i'w chael—a rhoddai delyn o'r fath oreu yn ei law. Portreadai yr ymadawedig fel cymeriad mor wyn, mor lan, mor debyg i sant, fel mae'r syndod oedd ei fod wedi gallu byw o gwbl yn

"Yr Hen Fyd pechadurus hwn."

Mewn angladd arall fyddai dim gair o ganmoliaeth, ond rhwng y brawddegau gallesid gweld "yr ymadawedig" yn disgyn i le na waeth i ni heb ei enwi. Os byddai dyn yn wyn yn ngolwg yr hen bregethwr 'roedd e yn wyn, os yn ddu, du ydoedd, heb smotyn gwyn yn agos iddo. Yn ol yr hen bregethwr doedd hi ddim yn bosibl fod yna ryw fath o "Half Way House" rhwng y nefoedd a'r lle arall y cyfeiriai ato. 'Rwy'n dweyd "cyfeiriai ato," oherwydd mor bell ag y gwn i 'doedd e' byth yn ei enwi. Mae tipyn o hynyna yn yn yr efail. Mae y pregethwr bwysir yn neillduol o wael neu yn neillduol o dda, a'r gwleidyddwr a fernir yn berffaith neu yn hollol ddiwerth—dim "Half Way House." Ond chwareu teg i'r efail a'i phobl mae y pynciau yr ymdrinir a hwynt bob amser yn ymarferol ac amserol. Chafodd ffair Dalis, er enwoced yw, fawr o sylw

Seiat yr Efail,

ac anfynych y bydd clonc yr ardal yn cael lle i roddi ei droed i lawr tufewn i'w muriau. 'Dyw'r tywydd ddim heb gael sylw, gwir, ond fel rheol mae program yr efail yn iach, a'r pynciau yn sylweddol ac adeiladol. Yn y dyddiau diweddaf hyn, ys dywed y pregethwyr, mae Lloyd George a'r *Budget* wedi cael lle amlwg, ac ar y cyfan mae'r *Budget* wedi enill cymeradwyaeth yr efail, er fod rhai o'i phobl yn meddwl ei bod yn drueni na fuasai'r bacco wedi cael llonydd.

'Does dim diwrnod yn mynd heibio nad yw duwinyddiaeth—hen a newydd—a chrefydd yn cael tro yn yr efail. Dywed rhai fod oes y pregethu wedi dirwyn i ben, ac mai un o bethau y gorffenol yw y pwlpud; fod crefydd allan o "ddate," ac nad yw dynion bellach yn teimlo yr un dyddordeb yn y pethau yna.

Lol i gyd. Pe gallai eingion yr efail siarad fe ddywedai fod syniadau crefyddol, pregethau a chymanfaoedd yn agosach at feddwl a chalon trigolion Sir Aberteifi na dim arall, fod hyd yn nod y *Budget* yn gorfod boddloni ar *back seat* pan ddaw un o'r cwestiynau yna yn mlaen. A'r peth od yw hyn—mae dynion nad ydynt yn ymwneud dim a chrefydd ar y Sul—dynion nad ydynt byth, neu nemawr byth yn mynd i'r cwrdd a'r Ysgol Sul, yn myned yn grefyddwyr yn yr efail—maent mor barod â neb i siarad am grefydd ac i draethu eu barn ar ryw bwnc duwinyddol. 'Dyw crefydd ddim wedi colli gafael arnynt. Ffordd mae cyfrif am hyn alla i ddim a dweyd, ond wyf wedi bod yn ceisio meddwl weithiau mai un o ddiffygion y gwasanaeth crefyddol cyhoeddus yn ein dyddiau ni ydyw, fod y pregethwyr yn cael gwneud y cyfan bron tra mae y gwrandawyr yn cael eu pennau'n rhyddion ar ganu yr emynau a rhoi yn y casgliadau.

Purion peth ambell waith fyddai rho'i cyfle ac hyd yn nod anogaeth i rai o'r gynulleidfa i godi ar ol y pregethwr i ddatgan eu meddyliau a'u teimladau ar y testyn dan sylw. Rwy'n credu fod a fyno rhyddid yr efail lawer iawn a'i chrefydd, ac a'i gallu i wneud crefyddwyr o bobl ddigrefydd.

Ond gadewch i mi gael myn'd i

Gymydogaeth y Testyn.

Yr ydych yn cofio am yr Undodwr y soniais am dano y tro o'r blaen. Bu yntau am dro yn yr efail yn nyddiau'r ffair a chefais gyfle i ddweyd tipyn o'm barn wrtho ar y gosodiad wnaeth ar ei ymweliad diweddaf â'r efail sef, ''Dyw hi fawr wahaniaeth beth yw ei syniadau a pheth mae'n gredu—byw yw'r pwnc.'

Ymdriniais a'r mater mewn dull o gatecism—rhyw holi ac ateb yn ol dull Socrates gynt. Myntwn i, 'Wel, Twmi, pam yn ol dy farn di, y mae golwg mor llwm a digynyrch ar fferm hwn a hwn? gan gyfeirio at amaethwr yn yr ardal. Barn pawb yw ei fod yn ffarmo ar ei golled—ffordd wyt ti'n cyfrif am hyny?

"Meddai yntau, 'Wel, gof, gwaith rhwydd yw ateb y gofyniad yna,—'Dyw'r dyn yn gwybod dim am ffarmo,—'dyw e'n deall dim yn nghylch y tir a'r amser i'w drin,—Wyr e' ddim am anifeiliaid a'r modd i'w magu. Wyr e' ddim mwy am ffarmo nag a wn i am siarad o flaen ———.'

"Stopa, stopa," meddwn i, "Wyt ti am ddweyd fod hwna yn fethiant fel amaethwr am na wyr e' ddim am waith a phethau y fferm?"

"Dyna fe'n union," meddai Twmi.

"Mewn geiriau ereill," meddwn i, "cyn y gall dyn drin tir yn dda a bod yn amaethwr llwyddianus rhaid iddo fod yn feddianol ar syniadau iawn a chywir am dir ac anifeiliaid. Rhaid synied yn iawn cyn galler ffarmio'n iawn." "Dyna fe'n gywir," medd Twmi drachefn. "Wel, Twmi," meddwn inau, "Os wyt ti'n meddwl ei bod yn anmhosibl ffarmo'n awn heb syniadau iawn am ffarmo, sut wyt ti'n meddwl y gall dyn fyw yn iawn heb syniadau iawn am fywyd a'i amcan? 'Rwy'n myn'd yn grawn yn fy nghroen pan glywaf ambell i bregethwr—yn enwedig pan glywaf ambell i bregethwr Undodaidd yn dyweyd wrth gynulleidfa o bobl 'nid beth i chi'n gredu yw'r pwnc ond sut i chi'n byw.'

"Rwy'n credu mewn bywyd da a gwerth cymeriad gymaint ag un pregethwr, ond 'rwy'n dal—dyweded y pregethwyr beth fynont, waeth dydy' nhw ddim yn anffaeledig—ei bod yn anmhosibl i ddyn neu genedl fyw bywyd pur a sanctaidd os nad ydynt yn feddianol ar syniadau gweddol gywir am Dduw a bywyd. Mae gan syniadau crefyddol cenedl fwy i wneud a'i chymeriad nag y mae llawer yn feddwl—yn wir mae gyda ni hanes am genedloedd wedi eu gwenwyno i farwolaeth gan syniadau afiach ac amhur—e.g., meddylia am hanes Spaen. Wyddost ti beth—pe bawn ni yn cael fy ffordd fe ysgrifenwn uwch ben drws bob capel ac eglwys:—'Mae'n amhosibl i chi fyw'n iawn os nad yw eich syniad am fywyd yn iawn,—rhaid cael y syniadau gorau cyn byw y bywyd gorau.' A wyt ti'n dilyn, Twmi?"

"Ydwyf, gof," meddai yntau, "ymlaen a ti."

"Wel, mae Undodiaid yn gyffredin yn credu mai ein syniadau ni yw'r syniadau gorau—mwyaf cynorthwyol i fywyd a dedwyddwch. Ac mae'n ffaith ein bod yn credu yna yn galw yn daer arnom i wneud ein gorau y bwysleisio a lledaenu y syniadau. Ond rhyfedd mor dawel a difater y mae llawer o honom—meddylia mor esgeulus mae llawer o'n pobl o'r cwrdd a'r ysgol—wyddost ti beth, Twmni, mae'n bechod ein bod ni yn llai ffyddlon na phobl enwadau ereill. Mi hoffwn yn fy nghalon weled rhyw ddiwygiad Undodaidd yn cymeryd lle, a phe bai rhyw awel yn dod heibio i'n deffroi o'n cysgadrwydd a'n difaterwch a'n gwneud yn fwy ffyddlon gyda'r achos a'r ffydd Undodaidd.

Jacki'r Gof.

(*I'w barhau.*)

ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1909.

Cymerodd yr Arholiad le prydnawn Sadwrn, y 17eg o Ebrill. Cafodd pedair-ar-ddeg o ysgolion eu cynrychioli yn yr Arholiad. Yr oedd rhif yr ymgeiswyr eleni ychydig yn llai na llynedd. Nid yw hyny yn arwyddo fod y dyddordeb yn y Gwersi yn myned yn llai. Tebyg fod llai o blant yn perthyn i rai o'r ysgolion eleni na llynedd. Dygai yr Arholwyr dystiolaeth uchel i'r modd yr aeth y plant drwy eu gwaith. Yr oedd eu hatebion yn amlygu eu bod wedi cael eu haddysgu yn dda.

Dibyna llwyddiant yr Arholiad ar yr Athrawon, a da genym ddeall fod yr Athrawon wedi bod mor llafurus gyda'r plant eleni.

L. WILLIAMS,

Ysgrifenydd Adran yr Ysgol Sul.

ALLTYPLACA. ARHOLWR—MR. T. OSWALD WILLIAMS, Gwarnant.

Cyfanrif 22.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Hannah Jones, Hannah Mary Davies, Martha Ann Thomas, Jane Jones, John Lloyd Evans, Josiah James Rees, Evan Rees Evans, Thomas William Jones, Howell Price Evans, Daniel Rees Evans, Willie Bateman Rees, Gwilym John Evans, David Morgan Rees, Elias Davies, Evan Tom Davies, Thomas Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Sarah Hannah Jones, Hannah Mary Davies, Jane Jones, Josiah James Rees, John Lloyd Evans, Evan Rees Evans.

BWLCHYFADFA. ARHOLWR—MR. DAVID DAVIES, Pantdefaid.

Cyfanrif 34.

Safon I.—Dosparth I.—Ann Jones, Margaret Ellen Thomas, Ann Jones, Annie Lewis, Mary Cheetham, Winnie Brown, Rachel Jones, Hannah Margretta Jones, Mary Evans, Hannah Jones, Eliza Jane Davies, James Brown, John Jones, Dan Jones, David James Griffiths, Enoch Evans, John Jones, Daff Jones, Tom Evans, Johnny Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Minnie Thomas, Margretta J. Thomas, Annie Lewis, Rachel Jones, Hannah Margretta Jones, Anne Jones, Anne Evans, Nancy James Evans, James Brown, Tom Jones, John James Evans, Johnny Thomas, David Jones, John Howell Thomas.

BRONDEIFI, LLANBEDR.

ARHOLWR—MR. DAVID WILLIAMS, Glynhir.

Cyfanrif 20.

Safon I.—Dosparth I.—Hannah Jane Lloyd, Hilda Davies, Nellie Davies, Jennie Williams, Margaret Ann Jones, Annie Davies, Gwen Ellen Davies,

Jane Mary Davies, Doline Davies, David John Evans, John Davies, Willie Davies, David Tom Williams, David Joshua Davies.

Safon II.—Dosparth I.—Ethel Irene Jane Davies, Mary Blodwen Davies, Sally Davies, Henry Williams, Thomas John Egbert Davies.

Dosparth II.—Llewellyn Davies.

CILIAU. ARHOLWR—MISS E. HOWELL, Dolboidy.

Cyfanrif 5.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Jane Davies, David Edwin Davies, James Davies, William Emrys Hughes.

Safon II.—Dosparth I.—Evan Thomas Hughes.

CAERONEN. ARHOLWR—MR. J. A. DAVIES, Llanbedr.

Cyfanrif 10.

Safon I.—Dosparth I.—Sarah Helen Davies, Dinah Davies, Nancy Davies, Sarah Helen Davies, Sarah Ellen Jones.

Safon II.—Dosparth I.—Hannah Mary Jones, Margaret Jenkins, Watkin William Davies, John Jones, Evan John Jones.

CRIBYN. ARHOLWR—PARCH. L. WILLIAMS.

Cyfanrif 53.

Safon I.—Dosparth I.—Elizabeth Mary Jones, Margretta Jones, Frongelyn, Jane Hughes, Mary Hughes, Nellie Jones, Dinah Jones, Nancy Williams, Esther Evans, Rachel Mary Harries, Jane Evans, Hannah Mary Jenkins, Margaret Herbert, Rachel Jones, Margaret Jones, Maesteg, Sarah Jones, Anne Jones, Esther Jones, Margaret Evans, Rachel Mary Jones, Ellen Mary Jones, Margaret Ann Jones, Winniefred Evans, Jenkin John Jones, Evan Jones, Tom Jones, Evan Williams, Tom Williams, James Evans, Evan Davies, Three Horse Shoe, Daniel Davies, James Herbert, David John Jones, David Jones, Evan Davies, Frondeg, Tom Davies, John Evans, Evan Howell Jones, Tom Lewis, Samuel Evans.

Safon II.—Dosparth I.—Elizabeth Mary Jones, Rachel Jones, Margaret Herbert, Margaret Jones, Margaret Evans, Ellen Mary Jones, Kate Evans, Jane Hughes, Jenkyn John Jones, Evan Jones, Tom Jones, Evan Davies, Three Horse Shoe, David Jones, Evan Davies, Frondeg.

CAPELYGROES. ARHOLWR—PARCH. J. DAVIES.

Cyfanrif 27.

Safon I.—Dosparth I.—Lizzie Evans, Elizabeth Jane Davies, Rachel Ann Davies, Sophia Jones, Margaret Jones, Margaret Ellen Evans, Nancy Evans, Hannah M. Evans, Jane Mary Davies, Sarah Jones, Daniel Jones, Gwilym Jones, David John Davies, John Morgan, David Albert Jenkins, Samuel Davies, Benjamin Evans.

Safon II.—Dosbarth I.—Margaret Ellen Evans, Lizzie Evans, Rachel Ann Davies, Margaret Jones, Hannah Jones, John Morgan, Evan Morgan, Samuel Davies, Benjamin Evans, David John Davies.

(*I w barhau.*)

PRIODAS.

Dydd Mawrth, Ebrill 13, yn Eglwys Sant Ioan, Clydach-ar-dawe, unwyd mewn glan briodas, Mr. William James, a Miss Gweny Jenkins, Trebanos.

MARWOFION.

Ebrill 2, yn 81 mlwydd oed, David Jones, Parkybedw, Ciliau Aeron. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Eglwys y plwyf. Pregethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, a gwasanaethwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan offeiriad y plwyf. Gadawodd briod a phedwar o feibion ar ei ol.

Ebrill 4, yn nhy ei ferch, Mrs. John Steward, Farber, Unol Dalaethau America, Rees Evans, gynt o Peithyn, ger Llanbedr, Ceredigion, lle y ganwyd ef Mai 20, 1839. Mab oedd i David a Mary Evans, cyn hyny o Gilblaidd, brawd i wraig gyntaf Mr. David Evans, Cilgell isaf, a chefnder i Mrs. Abel Evans, ac i'r ddau frawd o Froniestyn, Aberdar. Ymfudodd ef a John ei frawd i America tua'r flwyddyn 1856. Yn 1869 priododd un Mary Longford, o'r hon y cafodd un mab a thair merch. Bu farw'r mab yn blentyn bach, ac un o'r merched, Mrs. Bessie Holman, Mawrth 31, 1907, yn 30 oed, gan adael tri phlentyn. Y mae'r ddwy arall yn fyw. Ebrill 1878, pan yn symud o Kirksville i Nebraska, cyfarfu ag anffawd dost, cymerodd dillad ei wraig dân, a bu hyny yn achos ei marwolaeth yn mhen tri diwrnod, a hi yn 27 oed ; llosgodd yntau ei ddwylaw gymaint wrth geisio ei hachub, fel yr oedd y cnawd yn syrthio oddiwrthynt. Gadawyd ef felly a thair merch fach ar ei law, mewn ardal ddieithr, heb gartref, heb gyfeillion ; er hyny gwelodd lawer o garedigrwydd. Wedi i'r merched ddod yn ddigon hen, prynodd fferm ger Vandalia, lle y buont fyw yn hapus iawn nes i'r merched briodi ; yna gwerthodd y fferm ac aeth i fyw at ei ferch gyda'r hon y bu farw. Gwasanaethodd ddwy flynedd yn y rhyfel cartrefol.—*Talfyriad o'r "Vandalia Leader."*

Ebrill 9, yn 8 mis oed, Gwilym Stanley, baban Edward ac Anne Evans, Pantyrhwch, Llanbedr. Claddwyd yn mynwent Capelygroes dydd Mawrth canlynol, y Parch. J. Davies yn gwasanaethu.

Ebrill 19, yn 24 mlwydd oed, Elizabeth Morgan, merch Thomas a Catherine Morgan, Cwm'rodyn, Llanfihangel Ystrad. Ni fu yr ymadawedig yn glaf ond am ychydig ddiwrnodau. Hawdd oedd canfod yn yr angladd fod yr amgylchiad yn un caled, a chydymdeimlir yn fawr â thad a mam ac â brawd a chwiorydd yr ymadawedig. Claddwyd yr Iau canlynol yn mynwent eglwys y plwyf, a gwasanaethwyd yn y tŷ ac ar lan y bedd gan y Parch. L. Williams. Cynorthwywyd hefyd gan y Parch. B. Carolan Davies, (A.), Ty'nygwndwn.

Mai 4, yn 46, Broniestyn Terrace, Aberdar, Mr. Richard Lewis, gynt o'r Gadlys Foundry, a Fairfield House, yn 78 oed. Daliai gysylltiad yn fore a'r Hen Dy Cwrdd, a phan gychwynwyd yr achos Seisnig yn Highland Place yn 1860, yr oedd ef yn un o'r ffyddloniaid, a pharhaodd

hyd y gallai hyd ddiwedd ei oes. Casglodd gyfoeth mawr un amser—tua £40,000 medd dynion—ond yn anffodus cymerodd yr oll aden a diflanodd, gan ei adael ar y diwedd yn gymharol dlawd. Gedy ar ei ol bump bachgen a phump merch. Collodd ei briod rai blynyddau'n ol. Yn yr angladd gwasanaethodd y Parch. M. Evans, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. E. R. Dennis a R. J. Jones.

Mai 5, Mary Evans, gweddw y diweddar Thomas Evans (Tomos Nathaniel), Troedyrhiw, Cellan, a merch y diweddar Dafydd Jones (Deio'r Sosin), Lletytwpa fach, Llanbedr. Gan nad oedd cyflwr ei hiechyd yn dda ac er bod yn nes i'w mhab a chyfleusderau eraill, symudodd i Lanbedr i fyw'n fuan ar ol marwolaeth ei phriod, ac yno'n nhy ei mhab ac yn wrthrych ei ofal a'i dynerwch ef a'i briod y gorphenwyd ganddi ei gyrfa ddaearol ar y dydd uchod. Treuliwyd ganddi fywyd maith o wasanaeth distaw a pharod ac ni chyll hi ei gwobr. Yr oedd yn aelod o eglwys Caeronen. Ar ddydd ei hangladd gwasanaethwyd gan ei gweinidog, a chladdwyd ei gweddillion yn medd ei thad yn mynwent Brondeifi. Gadawodd fab a merch ac un brawd o leiaf (John Jones, Tonypandy), heblaw perthynasau eraill yn alarus ar ei hol.

Mai 6, yn 36 oed, Sarah, priod James Davies, Paris House, Gorseinon. Merch ydoedd yr ymadawedig i'r diweddar David Thomas, Fadfa, ger Talgarreg. Gwanaidd ydoedd erioed o ran iechyd ond ni feddyliodd neb y byddai ei haul yn machludo mor gynar. Gwaith caled yw colli menyw ieuanc, priod ofalus a mam dyner ; un ac iddi air da yn mhlith cyfeillion lawer ar gyfrif ei chymeriad rhinweddol, ei gwên siriol a'i hyspryd caredig. Yr oedd yn Undodwraig selog a deallgar, un a rheswm ganddi dros yr hyn a gredai, ac un a syniai yn uchel am egwyddorion ei ffydd. Tra yn yr ardal bu'n aelod ffyddlon yn Mwlchyfadfa. Gadawodd briod, pedwar o blant bychain, dau frawd a llu o berthynasau ereill i alaru ar eu hol. Y Llun canlynol claddwyd yn Mwlchyfadfa, yn unol a'i dymuniad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Simon Jones, B.A., pregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a gorphenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. T. A. Thomas. "Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth."

Mai 7, Sarah Anne, baban James a Margaret Jones, Ffactri uchaf, Talgareg, yn 11 mis oed. Claddwyd y Mawrth canlynol yn Llwynrhydowen a gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins.

Mai 12, yn Cemetery Road, Aberdar, Mary Jane (Polly), merch y diweddar John Jones, Chemist, a chwaer D. W. Jones, J.P., yn 58 oed. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. R. J. Jones, M.A., ac ar lan y bedd yn y Cemetery gan y Parch. M. Evans.

May 14, 43 years of age, John Charles Jones, Glynmeirch Road, Trebanos. The deceased during his illness, extending over some months, manifested such sweetness of disposition, that won the love of many. This was testified to by the numerous friends and neighbours, by the large concourse which accompanied his remains to Gellionen burial ground on the 18th inst. The Rev. W. Alfa Richards, of Trebanos, conducted the services throughout. May God sustain the bereaved widow and children in their day of trouble and sorrow.

Mai 16, yn 36 oed, James Jones, Ffactri uchaf, Talgareg. Nid yn aml y cofnodir dau angladd o'r un teulu yn yr un rhifyn o'r Ymofynydd fel y mae wedi disgyn i'n rhan ni i wneud y tro hwn. O'r lle uchod yn gyntaf ehedodd yspryd plentyn bach at ei Dduw a chyn pen deng niwrnod ehedodd yspryd y tad ar ei ol. Erbyn heddyw gorwedd y ddau lestr pridd yn yr un bedd yn mynwent y Llwyn a phwy wyr nad yw y ddau yspryd yn nghwmni eu gilydd yn ngwlad y dydd. Bu yr ymadawedig yn gwaelu am rai misoedd a dangosodd amynedd mawr yn ei gystudd.

Bu farw ar haner ei waith gan adael cynlluniau lawer heb eu cario allan. Bachgen tawel, di son am dano yd-oedd—un ac iddo gyfeillion lawer—aelod ffyddlon yn y Llwyn am flyn-yddoedd ac wedi hyny yn y Bwlch. Gadawodd briod, pedwar o blant bychain, chwaer, pump o frodyr, a chyfeillion a pherthynasau lawer mewn galar. Claddwyd yr lau can-lynol yn Llwynrhydowen. Gwasan-aethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. T. Lloyd, Talgareg, a Morgan Evans, Ysw., Y.H., Oakford.

MANION AC HANESION.

WINNIPEG, CANADA.—Yn mhlith sefydlwyr yr achos Undodaidd newydd yn y ddinas uchod, y mae ein cyfaill ieuanc, John Evans, Cwm-mynach, Cribyn (gynt o Gyfeile). Bydd yn dda gan ei luaws cyfeillion yn yr hen wlad, yn ddiau, i glywed hyn.

CAPELYFADFA.—Sul y Pasg talodd ysgol y Llwyn ymweliad â'r lle hwn, a chafodd y ddwy ysgol eu holi oddiar Marc 9fed gan Mr. Jenkin Jones, Llandyssul, yr hwn gyflawn-odd ei waith mewn dull hapus iawn. Yn yr hwyr cafwyd ysgol gân undeb-ol. Arweiniwyd y plant gan Mr. John Thomas, Ffosygiach, a'r cor gan Mr. J. R. Thomas.

TREBANOS.—Prydnawn a nos Sul, Mai 2, cynaliwyd dau gyfarfod ad-roddiadol yn y Graig, dan lywyddiaeth y Parch. W. A. Richards. Cafwyd gwleddoedd ardderchog yn mhob ystyr, ac aeth y plant, fychain a mawrion, drwy eu gwaith yn ganmol-adwy iawn. Edmygwn y cyfaill diwyd a gweithgar, Mr. J. J. Wil-liams am ei lafur diflino gyda'r plant. Cyfeiliwyd yn fedrus gan Master Isaac Emlyn Hopkin, yr hwn, yn ddiweddar, a basiodd (gydag anrhyd-edd), wrth ei chwareuad galluog ar y berdoneg.

ABERDAR.—Nos Fercher a Iau, Ebrill 28 a 29, rhoddwyd perfformiad llwyddianus iawn o'r Operetta boblog-aidd, "Cinderella and the Prince," yn y Neuadd Gyhoeddus, Trecynon, gan bobl ieuainc yr Hen Dy Cwrdd, o dan arweiniad Mr. John Thomas. Gwnaeth pawb eu gwaith yn dda, fel nad yw wiw enwi neb, gan na fydd gofod yn caniatau lle i enwi'r oll.

HIGHLAND PLACE, ABERDAR.—Da genym ddeall fod Mr. Daniel Davies, Trevor Street, newydd enill ei "A.C." mewn cerddoriaeth. Tybir mai efe yw'r cyntaf o'r enwad yn Nghymru sydd wedi gwneuthur hyn. Teg yw crybwyll fod Mr. George Thomas, arweinydd Cymanfa Morganwg eleni yn A.C., ond gyda'r Annibynwyr oedd pan enillodd ef.

LLANDYSSUL.—Dydd Sul, Mai 16, cynhaliodd Ysgolion Sul Undeb Llandyssul eu Cymanfa flynyddol. Gwneir y cylch i fynu o ysgolion y Bwlch, Llwyn, Pantdefaid, a'r Graig, Llandyssul. Yr oedd arwyddion amlwg iawn yn y ddiweddaf, fod y Gymanfa yn dod yn sefydliad mwy poblogaidd flwyddyn ar ol blwyddyn, a chredwn fod ol parotoad a llafur mwy eleni, ar yr adrodd, gwybodaeth ysgrythyrol, a'r canu. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yna adroddodd ysgolion y Graig a Phantdefaid, Matthew xi, yn cael eu holi gan Mr. Jenkins. Adroddwyd Luc xii gan ysgolion y Bwlch a'r Llwyn, a holwyd hwy gan y Parch. Arthur Thomas. Arwein-iwyd y canu yn fedrus gan Mr. Thomas Thomas, Green Grove, Tal-

garreg, a'r plant gan Mr. John Thomas, Ffosygiach, o'r un lle. Yn yr hwyr traddodwyd anerchiad effeithiol gan y Parch. E. O. Jenkins, ar "Ddyledswydd rhieni tuag at yr Ysgol Sul." Dilynwyd ef gan Mr. Jenkin Jones, Llandyssul, a Mr. T. G. Thomas, Talgarreg. Canwyd yr anthem, "Pa le mae Gwaredwr Israel," yn nghyd ag amryw donau dewisol yn nghwrdd yr hwyr, yn gystal ag yn y prydnawn. Cyfeiliwyd drwy y dydd gan Mrs. Arthur Thomas a Miss Lena Evans, Alltyrodyn Arms. Y diffyg mwyaf amlwg ydoedd fod y capel lawer yn rhy fach i gynwys y dorf fawr garai ddyfod i fewn. Gwnaeth pobl garedig y Graig eu goreu er croesawu yn mhob modd wahanol aelodau'r ysgolion. Dywedwyd wrthym gan lawer fod y Gymanfa hon yn rhagori ar y rhai gawsom er i'r undeb hwn ddechreu. Yn mlaen yr elo gan ragori eto.

RHYDYGWIN.—Yn unol a'n harferiad caed y tê a'r cyfarfod adloniadol blynyddol dydd Gwener y Groglith. Yr oedd yr hin yn ddymunol, a daeth llu o blant yn nghyd, llawer o ba rai a berthynent i enwadau eraill yn y gymydogaeth. Daeth yn nghyd hefyd bron bawb a ddaliant berthynas a Rhydygwin i gyfranogi o'r amrywiol bethau oedd ar y byrddau. Darparwyd y wledd eleni gan Mrs. Thomas, Maesffynon Cottage; Mrs. Jones, Maesffynon; Mrs. Jones, Caegwyn; a Miss Hannah Lloyd, Penbrynmawr. Cynorthwywyd hwy hefyd wrth y byrddau gan Miss Lizzie A. Davies, Maesffynon Cottage; Miss Maggie Lloyd, Velindre; Miss Howells, Dolbeudy; Mrs. Williams, Bedlwyn; a Mrs. Owen, Salem. Yr oedd y byrddau wedi eu gwisgo yn y modd mwyaf cymhwys, ac yr oedd y pethau bwytadwy arnynt o'r fath oreu. Wedi i bawb gael eu diwallu â'r danteithion hyn awd i gychwyn cyfarfod yr hwyr. Cadeiriwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn ddifyr a medrus gan Mr. D. Saunders Davies, Felinfach. Cafwyd anerchiadau i'r tê i ddechreu'r cyfarfod, a chafwyd un o honynt wedi ei gyfansoddi i'r amgylchiad hwn gan Mr. W. Howell Davies, Post Office, Felinfach. Wedy'n cafwyd adroddiadau, dadleuon, unawdau, deuawdau, a thonau gan y Côr. Er fod ein cyfarfodydd yn arfer bod yn dda, eto nid gormod ydyw dweyd fod y cyfarfod eleni o radd uwch nag ydym wedi gael er's blynyddau. Yr oedd y darnau a adroddwyd yn rai hynod dlws, ac yn cael eu hadrodd yn effeithiol iawn. Peth arall oedd yn rhagori yn y cyfarfod hwn oedd fod ynddo fwy o unawdau nag arferol. Yr oedd y côr yn lluosocach hefyd nag arfer, a chanodd amryw donau yn rhagorol iawn. Chwareuwyd yr Organ gan Mrs. Thomas, Police Station, Ystrad. Mae'n ddyledus i ddweyd hefyd i Mrs. Thomas a'i phriod, P.C. Thomas, fod yn llafurus iawn yn addysgu y rhai fu yn canu yr unawdau. Arweiniwyd y côr gan Mr. Hughes, Rhydfydr, yr hwn sydd adnabyddus fel arweinydd o chwaeth a gallu, a'r hwn yr ydym ni yn brofi yn barod bob amser i roddi ei wasanaeth i ni. Cynygiwyd gan y Cadeirydd ac eiliwyd gan Mr. D. Davies, Post Office, Felinfach, fod diolchgarwch yn cael ei roddi i bawb ag oedd wedi bod yn gwasanaethu yn nglyn a'r tê a'r cyfarfod. Terfynwyd trwy ganu "Hen wlad fy nhadau." Mr. Thomas William Jones, Nantyronen, yn cymeryd yr unawd.

CENHADAETH Y VAN.—Dechreuwyd y genhadaeth yn Mhontypridd, nos Iau, y 13eg o Fai. Y Parch. Hugh Robinson, gweinidog y Wig, yw y *Van Missioner* am y tymhor hwn. Cymerodd Mr. Robinson feddiant o'r Van ychydig ddyddiau yn flaenorol yn Merthyr, lle y bu hi yn gorwedd dros y gauaf, a lle y cafodd ei phaentio, a'i gwneud yn barod ar gyfer ei gwaith yn yr haf. A dyma hi ar nos Iau y 13eg yn holl ogoniant *paint* a *varnish* ffres, a phob peth yn agos a bod yn drefnus. Perswadiais Mr. Robinson i roddi y *mechanical organ* allan o'r golwg y tu ol i'r Van. Yr haf y llynedd yr oeddwn yn methu dygymod a chlywed y gerddoriaeth beirianol yn cael ei falu allan o honi. Os na ellir cael rhywun i chwareu yr

harmonium yma, gwell bod heb y miwsig trwy droi *handle*. Dyna oedd oedd fy nheimlad a gweithredwyd arno.

Erbyn amser cychwyn y cyfarfod yr oeddym yn gwmni gweddol o gryf. Yr oedd y frawdoliaeth o eglwys Pontypridd yn methu bod gyda ni, am fod ganddynt *Social Tea* a Chyngerdd yn y capel. Ond dyma Mr. Robinson yn bryderus am lwyddiant y cyfarfod, yn gosod allan yr hysbysiadau, ac hefyd y ford yn llawn bwyd meddyliol, ar ffurf pamphledi a llyfrau ar Gristionogaeth Undodaidd ger bron y cyhoedd. Dyma eto y brawd W. H. Davies, o Hen Dŷ Cwrdd, Aberdar, wedi dod i gynorthwyo i roddi *lift* dda i'r Genhadaeth ar ei chychwyniad am y tymhor. Ac er syndod a llawenydd i'r cenhadwr dyma'r Parch. James Jenkins, Padiham, a gwen ar ei wyneb wedi dod hefyd gyda yr un amcan canmoladwy.

Dechreuodd Mr. Robinson trwy ddarllen a gweddio. Traddododd pob un o'r siaradwyr ei genadwri, a chafwyd ar y cyfan gyfarfod da odiaeth. Ar ol y noson gyntaf yma cafwyd y fantais o gynorthwy y Parch. J. Park Davies, B.A., B.D., a Mr. a Mrs. Lewis, Top Hill. Bu gwasanaeth Mrs. Lewis wrth yr *harmonium* yn anmhrisiadwy, a'i haraeth oddiar y Van nos Wener o blaid Undodiaeth oedd y peth mwyaf pybyr draddodwyd yn ystod yr wythnos. Cafwyd help Mr. Jenkins, Padiham, eto ar nos Sadwrn. Cafodd gryn dipyn o'i rwystro i fyned yn mlaen am iddo ar ddechreu ei anerchiad ar y Beibl i ddweyd fod y drydedd benod o Genesis yn gwrthddweyd y benod flaenaf. Yn ddiamheu yr oedd ddywediad y brawd yn hollol wir, ond er hyny y mae yn bwysig i'r cenhadwr Undodaidd ar y Van, pan fyddo rhai cannoedd o Drindodiaid penboeth o'i flaen, i gofio geiriau dwyfol ddoeth yr Arglwydd Iesu Grist pan yn danfon allan ei ddisgyblion fel defaid yn mhlith bleiddiaid, yr oeddynt i fod yn ddiniwed fel y colomenod, *ond yn gall fel y seirff*. Yn y cyfarfod hwn hefyd cawsom ein lluddias i fesur helaeth gan frodyr ag oeddynt wedi bod yn "edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ymgynhyrfo yn iawn," ac ar ol galw mewn amryw westai ar y ffordd, erbyn cyrhaedd y Van yr oeddynt yn ateb i ddesgrifiad Paul, "*Seeing through a glass* (*several of them*) *darkly*." Ac fel rheol, y mae pobl yn y sefyllfa hon yn dduwinyddion di-droi. Gofynodd un o honynt beth feddyliem am *Budget* Lloyd George, gan dybied yn ddiameu mai *Tariff Reformers* oeddem. Eglurwyd iddo mor bell ag oedd *fumes* y cwrw yn caniatau beth oedd natur ein cenhadaeth. Yn wir oedd y lle y safai y Van arno mewn awyrgylch lled gwrwaidd (*beery*). Tafarn ar yr aswy, tafarn ar y dde,a thafarnau o gwmpas, tua deg o honynt o fewn i gan llath o ffordd, a'r fynedfa i'r *lodging houses* yn myned heibio i'r Van. Fel yr oedd cryn ddoethineb yn awgrym Mr. Park Davies mai darlith ar ddirwest ddylasem gael ar nos Sadwrn. Cymerwyd yr unig gasgliad yn ystod yr wythnos ar nos Sadwrn. Sylweddolodd 4/6. Er gwaethaf yr holl anhawsderau y mae y cyfarfod hwn nos Sadwrn yn sefyll allan yn amlwg fel un o'r tri goreu yr wythnos.

Llawenydd i ni oll oedd teimlo fod y genhadaeth yn gwella fel yr oeddym yn myned yn y blaen,a phrofodd y cyfarfod olaf ar nos Fercher y goreu o'r gyfres. Yr oedd yn bresenol yn agos i 500 o bobl, a'r mwyafrif o honynt yn teimlo dyddordeb dwfn yn nghenadwri y llefarwyr. Pasiwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r cenhadwyr mewn modd gwresog, ac atebais inau ar ran y brodyr a'r chwiorydd oeddynt wedi llafurio i wneud y genhadaeth yn llwyddiant.

Ymadewais a Phontypridd gyda'r tren olaf am Benybont-ar-Ogwy, gan gyflwyno yr hadau a hauwyd ar hyd yr wythnos i ofal Rhoddwr pob rhodd berffaith, mewn ffydd os gofalwn ni am hau yr had yn mis Ebrill mewn tir da, y gofala Efe am y cynhauaf yn mis Medi.

DAVID G. REES.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

SEFYDLWYD YN NGHASTELLNEDD, 1802.
AIL-DREFNWYD YN MHONTYPRIDD, 1894.

Llywydd: Mr. J. R. Thomas, Pontshan.
Is-lywydd: Y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin.

CYNHELIR

CYFARFODYDD BLYNYDDOL

yr uchod eleni yn NGHAPELYBRYN, CWRTNEWYDD, ar ddyddiau MERCHER a IAU, MEHEFIN 23 a 24.

Estynir y croesaw gwresocaf gan weinidog ac eglwys Capelybryn i weinidogion a chynrychiolwyr eglwysi ac eraill i'r cyfarfodydd hyn. Y mae Mr. Davies am ddweyd mai y rhai hyn fydd y cyfarfodydd blynyddol diweddaf yno yn ystod ei weinidogaeth ef. Byddai yn hwylusdod mawr pe bae pawb dieithriaid fwriadant fod yn bresenol, i ymohebu â Mr. Davies, er gwneud parotoadau angenrheidiol i'w croesawu.

Bydd trefniadau y cyfarfodydd fel y canlyn :—

DYDD MERCHER, am 5 o'r gloch,—Y Pwyllgor Arianol.
„ „ 6 „ —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

DYDD IAU, am 9 o'r gloch,—Pwyllgor y Gymdeithas.
„ „ 10.30 „ —Anerchiad y Llywydd, yn cael ei ddilyn gan y Parch. E. Ceredig Jones, M.A., y pregethwr appwyntiedig.
„ „ 2 „ —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.
„ „ 6 „ —Gwasanaeth a Dwy Bregeth.

Dalier sylw fod y Pwyllgor yn cael ei wneud i fynu o weinidogion pob eglwys sydd yn casglu at y Gymdeithas, un cynrychiolydd oddiwrth bob un o'r eglwysi hyny, yn gystal a chyfranwyr o 2s. 6c. ac uchod. Os am ddwyn unrhyw fater ger bron y Pwyllgor ymoheber ar unwaith a'r Ysgrifenydd. Cesglir fel arfer yn yr holl gyfarfodydd.

T. ARTHUR THOMAS, Ysgrifenydd.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssnl.

CHRISTR. THOMAS & BROS., Ltd., Bristol,

Have the Leading Reputation in Wales for their

HOUSEHOLD & TOILET SOAPS

THE FAVOURITE QUALITY IS

CHRISTR. THOMAS, & BROS., LTD., BEST PALE

Which, as well as the other sorts, can be obtained, wholesale and retail, from

T. E. JONES & Co., LLANDYSSUL.

OLD SHOP, CRIBYN.

D. J. THOMAS,

General Draper, Milliner, Outfitter, Grocer, Ironmonger, and Boot and Shoe Merchant.

A well Selected Stock of Capes, Jackets and Millinery always on hand.
Juvenile and Boys' Suits a Speciality.

Agent for E. W. PRATT & Co., Bristol, Manufacturers of the well-known "Holdfast" Brand of Boots and Shoes.

Funeral Wreaths, Crosses,

Anchors, Harps, Lyres,

And other designs.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

HARRY COYSH, FLORIST AND SEEDSMAN,

NOTT SQ., CARMARTHEN.

Telegrams—Harry Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School,

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £17 17s., including Free Laundry; with Music, £19 19s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Five Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Hockey.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., F. Preston, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Mrs. W. A. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq.

Shopping by Post.

By means of our specially organised Post Order Department the Shopping Facilities enjoyed by Town Residents are at the disposal of those who live in the Country Districts, the resources of our huge establishment are, in fact, brought as near as the Nearest Pillar Box.

All orders dispatched, wherever possible, same day as received. No order too large for execution, none too small to receive attention.

Ben Evans & Co. Ltd.,

"THE HOUSE FOR QUALITY,"
SWANSEA.